Pecyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau trwy Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA)

Canllawiau i arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr tîm, arolygwyr lleyg ac arolygwyr cofnodol

Diweddarwyd ar gyfer Medi 2025

Tudalen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

Am fwy o gyngor cysylltwch â: Fiona Arnison AEF neu Liz Barry AEF

Dyddiad cyhoeddi: 1 Medi 2025
Dyddiad adolygu arfaethedig: Medi 2028

Rheoli fersiwn

Dogfen fersiwn	Awdur	Dyddiad cyhoeddi	Newidiadau a wnaed
1.0	Barry Norris	Ionawr 2013	
1.1	Barry Norris	Ebrill 2013	Mân ddrafftio
2.0	Barry Norris	Medi 2017	Diwygiadau ar gyfer y trefniadau arolygu newydd o Fedi 2017 ymlaen
3.0	Fiona Arnison	Medi 2018	Mân newidiadau i deitlau grid y FfGA; symud yr arweiniad ar brotocol y SAAd i Arolygwyr Cofnodol ac arolygwyr SAAd i ddogfen ar wahân
3.1	Fiona Arnison	Mawrth 2019	Symud arweiniad y FfGA i ddogfen ar wahân, fel ei bod yn haws i arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr cofnodol gael ato
3.2	Fiona Arnison	Hydref 2019	Eglurhad o radd C i gyd-fynd â'r polisi sicrhau ansawdd cyffredinol
4.0	Fiona Arnison	Mai 2021	Diweddaru iaith parthed barnau i fod yn gydnaws â'r fframwaith arolygu o 2021
5.0	Fiona Arnison/Liz Barry	Medi 2024	Diweddarwyd i gyd-fynd â threfniadau arolygu o 2024
6.0	Fiona Arnison/Liz Barry	Medi 2025	Diweddarwyd i adlewyrchu newidiadau i Ffurflen Gwerthuso Arolygydd a disgrifiwyr graddau

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y polisi hwn at:

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflwyno Estyn.

Yn unol ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb Estyn, cynhaliwyd asesiad effaith sgrinio cychwynnol ac ni ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar sail y naw nodwedd warchodedig a gyflwynir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (heblaw logos yr adrannau) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.

Ffurflenni ac arweiniad Sicrhau Ansawdd – Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA)

Pwrpas Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA) yw galluogi Estyn i gasglu gwybodaeth am ansawdd ei waith arolygu. Rydym yn dadansoddi'r deilliannau ac yn defnyddio'r wybodaeth i hyrwyddo gwaith arolygu o ansawdd uchel, i ymchwilio ymhellach i sefyllfaoedd pan fydd pryderon am ansawdd arolygu ac i lywio ein gwaith dysgu a datblygu proffesiynol ar gyfer arolygwyr. Gallem ddefnyddio'r deilliannau wrth ystyried tendrau a dyfarnu contractau arolygu.

Ym mhob arolygiad, mae'n ofynnol i Arolygwyr Cofnodol (AC) lenwi Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) ynghylch gwaith unrhyw Arolygydd Tîm, Arolygydd Cymheiriaid ac Arolygydd Lleyg sydd dan gontract. Mae'r FfGA ar gael i arolygwyr yn yr Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) ar gyfer pob arolygiad. Fel arfer, dylai arolygydd cofnodol gyfeirio sylwadau yn y ffurflen yn uniongyrchol at yr arolygydd cymheiriaid, neu'r arolygydd dan gontract, h.y. yn yr 2il berson (er enghraifft, *Fe wnaethoch chi hynny,* neu *Y tro nesaf, mae angen i chi weithio ar....).* Mae hyn yn sicrhau bod y FfGA yn bersonol a chefnogol. Fodd bynnag, wrth fod yn bersonol, dylai Arolygwyr Cofnodol ofalu nad ydynt yn gwanhau negeseuon anodd, gan fod angen cyfleu'r rhain i'r arolygydd bob amser. Darperir arweiniad yn y ddogfen hon ar y tôn y dylai Arolygwyr Cofnodol ei mabwysiadu yn eu hysgrifennu.

Yn gyntaf, mae'r Arolygwyr Tîm, Cymheiriaid a Lleyg yn cael cyfle i gwblhau hunanasesiad o'u gwaith eu hunain a nodi'r radd ansawdd (A-D) sy'n briodol, yn eu barn nhw, ar y FfGA. Mae ganddynt 5 niwrnod i wneud hyn ar ôl diwedd yr arolygiad. Rydym yn annog pob arolygydd i fod yn fyfyriol a nodi meysydd i'w datblygu yn y dyfodol sy'n gallu ein helpu i deilwra cymorth a hyfforddiant. Wedi hynny, mae Arolygwyr Cofnodol yn llenwi eu rhan nhw o'r FfGA ac yn rhoi graddau ansawdd. Os na fydd rhan yr hunanasesiad wedi'i llenwi ymhen 5 niwrnod, gall yr AC lenwi'r ffurflen heb unrhyw hunanasesiad gan yr Arolygwyr Tîm, Cymheiriaid a Lleyg. Fel arfer, dylai'r AC ystyried y sylwadau o broses Sicrhau Ansawdd (SAAd a SAAr) Estyn cyn llenwi graddau'r FfGA a rhoi adborth ar gyfer eu tîm.

Hefyd, gall fod angen i Arolygwyr Cofnodol ystyried profiad yr Arolygydd Tîm, Cymheiriaid neu Leyg wrth lunio barn. Gall fod angen mwy o gymorth ar arolygydd sy'n ymgymryd â'i arolygiad cyntaf nag arolygydd mwy profiadol.

Mân ddiffygion a diffygion pwysig yn gysylltiedig ag arolygiadau

Mae'n ofyniad gan Estyn fod pob arolygydd yn ymgymryd ag arolygiadau o ansawdd da. Lle y bo diffygion sylweddol neu bwysig, neu fethiannau difrifol, yng ngwaith arolygwyr, mae'n debygol y gallai'r arolygiad fethu bodloni gofynion Estyn a/neu gallai arwain at gŵyn â chyfiawnhad ynghylch sut cynhaliwyd yr arolygiad. Dyma beth yw diffyg sylweddol neu bwysig:

- unrhyw wendid yng ngwaith yr arolygydd a allai effeithio ar y barnau a roddir
- unrhyw agwedd ar waith yr AC neu'r tîm a allai amharu'n sylweddol ar ansawdd cyffredinol yr arolygiad, neu
- unrhyw agwedd a allai adlewyrchu'n wael ar y broses arolygu yn ei chyfanrwydd.

Mae diffyg sylweddol neu bwysig yn tanseilio hyder:

- yng nghywirdeb a dilysrwydd unrhyw Faes Arolygu a/neu
- yn ansawdd arolygiadau ac adroddiadau Estyn.

Dylai'r radd gyffredinol ar y FfGA adlewyrchu cydbwysedd y mân ddiffygion a'r diffygion pwysig yng ngwaith pob arolygydd.

Lle y bo'r ACof yn dyfarnu gradd gyffredinol sy'n wahanol i radd yr arolygydd ei hun, dylai'r ACof ychwanegu sylw byr i esbonio'r gwahaniaeth.

Lle bynnag y bydd gwaith arolygwyr tîm yn methu cyrraedd y safonau gofynnol (h.y. gradd A neu B yn gyffredinol), bydd Estyn yn cymryd camau i fonitro, cefnogi a helpu'r arolygydd i wella'i arfer. Yn y pen draw, rydym yn defnyddio arolygwyr y mae eu gwaith yn bodloni'r safonau a'r disgwyliadau gofynnol yn unig. Ar gyfer arolygwyr dan gontract, gallem ddefnyddio deilliannau'r FfGA wrth ystyried tendrau a dyfarnu contractau arolygu. Ar gyfer arolygwyr cymheiriaid, lle mae gwaith gryn dipyn islaw ein disgwyliadau (h.y. gradd C neu D yn gyffredinol), efallai y byddwn yn penderfynu peidio ag ailddefnyddio'r Arolygydd Cymheiriaid yn ystod gweithgarwch arolygu yn y dyfodol. Cewch ragor o wybodaeth am drefniadau Estyn i sicrhau ansawdd arolygiadau, gan gynnwys y camau y gallem eu cymryd i wella arfer arolygwyr os nad ydynt yn bodloni disgwyliadau, ar ein gwefan.

Mae'r diffiniadau graddau fel a ganlyn:

A – yn bodloni'r gofynion ym mhob agwedd neu bron ym mhob agwedd;
B – yn bodloni'r gofynion, gyda mân agweddau i'w gwella;
C – yn bodloni'r gofynion, ond angen cymorth nodedig i wneud hynny – ychydig o feysydd arwyddocaol i'w gwella;
D – nid yw'n bodloni'r gofynion o ganlyniad i ddiffygion pwysig neu fethiannau difrifol.

Os bydd sylwadau cyffredinol yn codi am unrhyw arolygydd, efallai bydd angen cynllun gweithredu gyda'r nod i sicrhau perfformiad gwell. Disgrifir y broses hon yn fanwl yn, **'Trefniadau Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau: Polisi a gweithdrefnau, Medi 2025' (Gweler Atodiad 1).**

Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) - ar gyfer Arolygwyr Cymheiriaid, Arolygwyr Lleyg ac Arolygwyr Ychwanegol

Hunanwerthusiad a myfyrio

Wrth lenwi'r FfGA, dylai arolygwyr ystyried y themâu gwerthuso canlynol a'r modd y mae hyfforddiant cychwynnol arolygwyr, neu hyfforddiant diweddaru dilynol, wedi eu cynorthwyo yn eu rolau. Dylent hefyd nodi unrhyw ddysgu proffesiynol pellach a fyddai'n fuddiol iddynt. Dylent ddefnyddio'r meini prawf ar dudalen x i roi gradd hunanasesu gyffredinol ar gyfer eu gwaith.

Thema gwerthuso	**Sbardun gwerthuso**
Gwybodaeth am yr arweiniad arolygu	Ydw i'n deall yn llawn sut i gymhwyso arweiniad arolygu ym mhob cyd-destun?
Cofnodi tystiolaeth	A yw'r dystiolaeth rydw i'n ei chofnodi yn cefnogi gwerthusiadau'r tîm yn glir?
Gwerthusiad o waith y darparwr	A yw fy ngwerthusiadau'n deg, yn gywir ac wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn?
Cyfathrebu	A oeddwn i'n cyfathrebu'n fuddiol ac yn broffesiynol drwyddi draw?
Cyfraniad y tîm	A wnes i ymgysylltu'n llawn yn y broses arolygu a chefnogi gwaith y tîm?
Cyflawni disgwyliadau yn 'Sut rydym yn arolygu'	A wnes i gynnal y safonau proffesiynol sy'n ddisgwyliedig?

Cryfderau	
Agweddau i'w gwella	
Gradd hunanasesiad gyffredinol y FfGA	

Gwerthusiad yr Arolygydd Cofnodol

Wrth lenwi'r FfGA, dylai Arolygwyr Cofnodol ystyried y themâu gwerthuso canlynol i nodi cryfderau yng ngwaith yr arolygydd, ac unrhyw agweddau y mae angen i'r arolygydd wella arnynt mewn arolygiadau yn y dyfodol. Wrth nodi agweddau i'w gwella, ble bynnag y modd, cyfarwyddir Arolygwyr Cofnodol i ddarparu arweiniad neu strategaethau penodol ynglŷn â sut gallai'r arolygydd wella'i fedrau arolygu, ei wybodaeth neu'i ymddygiadau.

Thema gwerthuso	Sbardunau gwerthuso'r AC i gefnogi datblygiad arolygydd
Gwybodaeth am arweiniad arolygu	Eglurwch ddisgwyliadau gan ddefnyddio enghreifftiau penodol o arweiniad arolygu
Cofnodi tystiolaeth	Nodwch egwyddorion allweddol cofnodi effeithiol; cyfeiriwch at enghreifftiau cryf
Gwerthusiad o waith y darparwr	Anogwch ddefnydd o driongli a'r arweiniad ysgrifennu i gefnogi sylwebaeth werthusol
Cyfathrebu	Rhowch adborth uniongyrchol ar dôn, amseriad, eglurder, cywirdeb, ac ati
Cyfraniad y tîm	Trafodwch ddisgwyliadau ar gyfer gwaith tîm a chyfraniadau at gyfarfodydd tîm
Cyflawni disgwyliadau yn 'Sut rydym yn arolygu'	Cyfeiriad at ble na chaiff disgwyliadau penodol eu bodloni

Cryfderau

Meysydd i'w gwella

Gradd gyffredinol FfGA yr AC

Wrth roi adborth, dylai'r AC gyfeirio'r sylwadau yn y ffurflen yn uniongyrchol at yr arolygydd cymheiriaid neu'r arolygydd wedi'i gontractio, h.y. yn yr 2il berson, ac ystyried tôn y sylwadau ysgrifenedig yn ofalus i sicrhau bod y rhain yn glir a buddiol:

Gradd	Disgrifiwr	Tôn adborth yr AC
A	Hynod effeithiol	Positif a chadarnhaol – yn gwella arfer sydd eisoes yn gryf
B	Effeithiol	Adeiladol a chytbwys – yn gwella ar sylfaen gadarn o fedrau a gwybodaeth arolygu
C	Anghyson	Clir – yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau, gwybodaeth ac ymddygiadau arolygu pwysig
D	Pryderon difrifol	Uniongyrchol – yn nodi'r agweddau sy'n peryglu ansawdd a dilysrwydd yr arolygiad

Matrics Disgrifwyr Graddau FfGA

Mae'r matrics canlynol yn rhoi disgrifwyr graddau gydag enghreifftiau, sy'n cyd-fynd â phob un o'r chwe sbardun gwerthuso ar y FfGA. Mae'r rhain yn rhoi arweiniad yn gysylltiedig â mân agweddau i'w gwella, diffygion sylweddol a phwysig neu fethiannau difrifol.

Mae graddau'r FfGA yn y tabl isod yn ymwneud â gwaith Arolygwyr Tîm, Arolygwyr Cymheiriaid ac Arolygwyr Lleyg yn unig.

Sbardun gwerthuso	Myfyrdod arolygydd	A - Hynod effeithiol	B – Effeithiol	C – Anghyson	D – Pryderon difrifol	Gwerthusiad AC
		Yn bodloni'r gofynion ym mhob un o'r agweddau neu bron pob un	**Yn bodloni'r gofynion gydag ychydig o fân agweddau i'w gwella**	**Yn bodloni'r gofynion ond angen cymorth nodedig i wneud hynny. Ychydig o feysydd arwyddocaol i'w gwella**	**Nid yw'n bodloni'r gofynion o ganlyniad i ddiffygion mawr neu fethiannau difrifol**	

Gwybodaeth am arweiniad arolygu	*Ydw i'n deall yn llawn sut i gymhwyso arweiniad arolygu ym mhob cyd-destun?*	Yn dangos dealltwriaeth drylwyr ac yn cymhwyso arweiniad arolygu yn effeithiol	Yn cymhwyso arweiniad yn gywir yn y rhan fwyaf o gyd-destunau	Yn colli agweddau allweddol ar yr arweiniad arolygu neu'n ei gymhwyso'n anghyson	Bylchau sylweddol mewn dealltwriaeth sy'n tanseilio ansawdd yr arolygiad	*Eglurwch ddisgwyliadau gan ddefnyddio enghreifftiau penodol o'r arweiniad arolygu*
Cofnodi tystiolaeth	*A yw'r dystiolaeth rydw i'n ei chofnodi yn cefnogi gwerthusiadau'r tîm yn glir?*	Mae tystiolaeth yn werthusol, yn gryno ac yn drefnus yn gyson	Yn werthusol, ar y cyfan, gyda mân faterion o ran eglurder neu berthnasedd	Mae'r dystiolaeth a gofnodir yn ddisgrifiadol ac nid oes ffocws gwerthusol iddi. Gallai fod yn anhrefnus neu fod â bylchau	Mae'r dystiolaeth a gofnodir yn anghyflawn neu'n anghywir. Nid yw'n cefnogi gwerthusiadau'r tîm	*Nodwch egwyddorion allweddol cofnodi effeithiol; cyfeirio at enghreifftiau cryf*
Gwerthuso gwaith y darparwr	*A yw fy ngwerthusiadau'n deg, yn gywir ac wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn?*	Mae gwerthusiadau'n fewnweledol, yn gytbwys ac wedi cael eu cadarnhau'n dda	Mae gwerthusiadau'n gadarn. Efallai bod angen mân welliannau	Mae diffyg cydbwysedd mewn gwerthusiadau neu dystiolaeth i'w cefnogi	Mae gwerthusiadau'n wan neu o bosibl yn gamarweiniol	*Anogwch ddefnydd o driongli a'r arweiniad ysgrifennu i gefnogi sylwebaeth werthusol*
Cyfathrebu	*A oedd fy nghyfathrebu yn fuddiol a*	Yn gyson glir, ffocysedig, amserol a phroffesiynol (ar	Cyfathrebu effeithiol, ar y cyfan. Gallai fod camgymeriadau	Mae diffyg eglurder, manwl gywirdeb neu	Mae problemau cyfathrebu yn atal effeithiolrwydd y	*Rhowch adborth uniongyrchol ar dôn, amseru,*

	phroffesiynol drwyddi draw?	lafar ac yn ysgrifenedig)	o bryd i'w gilydd (e.e. rhy fyr neu hir)	amseroldeb mewn cyfathrebu	tîm neu gywirdeb y gwerthusiadau	*eglurder, cywirdeb, ac ati.*
Cyfraniad y tîm	*A wnes i ymgysylltu'n llawn â'r broses arolygu a chefnogi gwaith y tîm?*	Yn hynod gydweithredol ac yn mynd ati i gefnogi gwaith arolygu pobl eraill. Yn ymgymryd â rôl lawn yn y broses SA	Aelod cadarnhaol o'r tîm. Yn cwblhau gweithgarwch arolygu yn ddibynadwy	Mae cyfraniad yn anwastad neu'n adweithiol	Mae ymglymiad cyfyngedig, goddefol neu ymosodol yn effeithio ar waith y tîm ac ansawdd cyffredinol yr arolygiad	*Trafodwch ddisgwyliadau ar gyfer gwaith tîm a chyfraniadau at gyfarfodydd tîm*
Cyflawni disgwyliadau yn 'Sut rydym yn arolygu'	*A wnes i gynnal y safonau proffesiynol sy'n ddisgwyliedig?*	Yn bodloni'r disgwyliadau'n llawn, ac yn aml yn rhagori arnynt	Yn bodloni'r disgwyliadau ac mae angen mân fireiniadau	Glynu at ddisgwyliadau yn anghyson	Yn methu bodloni sawl disgwyliad pwysig. Nid yw ymddygiad proffesiynol yn ddigon da	*Cyfeiriwch at ble na chaiff disgwyliadau penodol eu bodloni*

Atodiad 1: Taflen fonitro'r cynllun gweithredu

Cynllun gweithredu i wella perfformiad unigol:

Y cyfnod mae'r cynllun yn ei gwmpasu:

Monitro:

Maes allweddol i'w wella a gytunwyd	Gofyniad penodol	Tystiolaeth ofynnol	Diwedd y cyfnod: Asesiadau/sylwadau gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Gwybodaeth ychwanegol:

Crynodeb: